

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

AMODAU CYFFREDINOL CONTRACTAU

MYNEGAI

Rhan 1 Darpariaethau Cyffredinol

1. Dehongli
2. Atodiadau a Datganiadau Polisi
3. Amrywio Amodau
4. Hysbysiadau
5. Archwilio Safleoedd
6. Camgymeriadau mewn gwybodaeth
7. Gwrthdaro Buddiannau
8. Twyll

Rhan 2 Talu a Phris

9. Pris a Thalu

Rhan 3 Rhwymedigaethau Statudol a Rheoliadau

10. Iechyd a Diogelwch
11. Cyfle Cyfartal
12. Hyfforddiant
13. Cymhellion
14. Deddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999

Rhan 4 Diogelu Gwybodaeth

15. Cyfrinachedd
16. Diogelu Data
17. Indemniad Hawliau Eiddo Deallusol
18. Cyhoeddusrwydd, y Cyfryngau ac Ymholiadau Swyddogol
19. Archwilio a Swyddfa Archwilio Cymru

Rhan 5 Rheolaeth dros y Contract

20. Y Contract
21. Monitro Perfformiad
22. Toradwyedd
23. Cyflawni'r Contract

- 24. Hepgor
- 25. Trosglwyddo, Is-gontractio a Newid Rheolaeth
- 26. Estyniad posibl ar y cyfnod gwreiddiol
- 27. Newyddu

Rhan 6 Rhwymedigaethau

- 28. Rhwymedigaethau, Indemniad ac Yswiriant
- 29. Gwarantau a Datganiadau

Rhan 7 Diffyg, Amharu a Therfynu

- 30. Ansolfedd
- 31. Terfynu
- 32. Hawliau a Rhwymedïau a ddaeth yn eiddo i barti
- 33. Force Majeure

Rhan 8 Anghydfodau a'r Gyfraith

- 34. Y Gyfraith
- 35. Datrys Anghydfodau
- 36. Cyflafareddu

ATODIADAU

Amgaeedig [Y/N]

ATODIAD A – Cyflenwi Nwyddau []

ATODIAD B – Darparu Gwasanaeth []

ATODIAD C – Amodau Arbennig []

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

AMODAU CYFFREDINOL CONTRACTAU

Rhan 1 Darpariaethau Cyffredinol

1. Dehongli

Yn yr Amodau hyn:

Ystyr "Y Cyngor" yw Cyngor Sir Caerfyrddin, neu ei olynnydd/olynwyr;

Ystyr "Y Contractwr" yw'r person sydd drwy'r Contract yn ymgymryd i gyflenwi'r Nwyddau/Gwasanaeth i'r Cyngor. Lle mai unigolyn neu bartneriaeth yw'r Contractwr, bydd yr ymadrodd yn cynnwys cynrychiolwyr personol yr unigolyn hwnnw neu'r partneriaid;

Ystyr "Awdurdod sy'n Contractio" yw unrhyw Awdurdod sy'n contractio fel a ddiffinnir yn Rheoliad 3 Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2006 ac eithrio'r Cyngor.

Ystyr "Y Contract" yw'r Contract a wnaed rhwng y Cyngor a'r Contractwr, sy'n cynnwys y cymalau hyn ac unrhyw Atodiadau neu Atodlenni sydd ynghlwm, a chan gynnwys yr holl fanylebau a dogfennau eraill sydd wedi'u hymgorffori neu y cyfeirir atynt yn hyn ac ym mynegai'r ddogfen Tendr neu'r ddogfen Contract. Os oes anghysondeb rhwng yr Amodau hyn a dogfennau eraill sy'n rhan o'r Contract, yr Amodau hyn fydd drechaf oni chytunir fel arall yn ysgrifenedig;

Ystyr "Dyddiad Dyfarnu" yw dyddiad dyfarnu'r Contract gan y Cyngor i'r Contractwr;

Ystyr "Dyddiad Dechrau" yw'r dyddiad mae'r Contract yn dechrau.

Ystyr "Tendr" yw ymateb y Contractwr i'r Gwahoddiad i Dendro (fel y'i heglurwyd).

Ystyr "y Nwyddau" yw'r holl nwyddau, deunyddiau neu eitemau y mae'n ofynnol i'r Contractwr eu cyflenwi o dan y Contract;

Ystyr "y Gwasanaethau" yw'r gwasanaethau a ragnodir yn y Contract;

Ystyr "Cyfnod y Contract" yw'r cyfnod a ragnodir yn y Contract;

Ystyr "Estyniad" yw estyn hyd y Contract a gytunwyd yn unol â chymal 26.

Ystyr "Parti" yw parti i'r Contract hwn a rhaid dehongli "Partion" yn unol â hynny.

Ystyr "Pris y Contract" yw'r pris (heb gynnwys TAW) sy'n daladwy i'r Contractwr gan y Cyngor o dan y Contract am y nwyddau/gwasanaeth ac am i'r Contractwr gyflawni ei rannau o'r Contract yn llawn ac yn briodol;

Ystyr "Atodlen Prisiau" yw'r Atodlen sy'n cynnwys manylion y Pris.

Ystyr "Safon y Contract" yw'r safon a ragnodir yn y Contract;

Ystyr "y Fanyleb" yw'r fanyleb gwasanaeth – hynny yw, y disgrifiad o'r Gwasanaethau sydd i'w cyflawni o dan y Contract – fel a ragnodir yn y dogfennau tendr y mae'r partion yn cytuno arno ac sydd wedi'i gynnwys yn hyn;

Ystyr "y Swyddog Awdurdodedig" yw'r person a benodir gan y Cyngor ac a hysbysir yn ysgrifenedig i'r Contractwr i weithredu fel cynrychiolydd y Cyngor at bob diben sy'n gysylltiedig â'r Contract, neu gynrychiolydd awdurdodedig y cyfryw berson;

Ystyr "Rheolwr y Contract" yw swyddog y Cyngor, neu berson arall a benodir gan y Cyngor i weithredu ar ei ran at ddiben rheoli a gweinyddu'r Contract;

Ystyr "Cynrychiolydd y Contractwr" yw'r unigolyn a awdurdodir o bryd i'w gilydd i weithredu ar ran y Contractwr at ddibenion y Contract.

Ystyr "Cymeradwyaeth" a "Cymeradwy" yw caniatâd ysgrifenedig Rheolwr y Contract.

Ystyr "Personél Allweddol" yw unrhyw berson sydd, ym marn y Cyngor, yn hollbwysig i gyflawni'r Contract;

Ystyr "Eiddo'r Cyngor" yw unrhyw eiddo, ac eithrio eiddo tirol, y mae'r Cyngor yn ei ddyroddi i'r Contractwr neu'n sicrhau ei fod ar gael i'r Contractwr mewn cysylltiad â'r Contract.

Ystyr "Hawliau Eiddo Deallusol" yw patentau, dyfeisiadau, nodau masnach, nodau gwasanaeth, logos, hawliau dylunio (boed yn gofrestradwy ai peidio), ceisiadau am unrhyw un o'r uchod, hawlfraint, hawliau cronfeydd data, enwau parthau, enwau masnach neu fusnes, hawliau moesol a hawliau neu rwymedigaethau eraill tebyg boed yn gofrestradwy ai peidio mewn unrhyw wlad (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Deyrnas Unedig) a'r hawl i ddwyn achos am beri coel.

Mae gan "Data Personol" yr un ystyr ag yn Adran 1(3) Deddf Diogelu Data 1998;

Ystyr "Gwybodaeth Gyfrinachol" yw unrhyw wybodaeth a ddynodwyd yn gyfrinachol gan y naill Barti neu'r llall yn ysgrifenedig neu y dylid ei hystyried yn gyfrinachol (sut bynnag mae'n cael ei chyfleu neu ar ba bynnag cyfrwng mae wedi'i storio) gan gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â busnes, eiddo, asedau, arferion masnachu, datblygiadau, cyfrinachau masnach, Hawliau Eiddo Deallusol, medr, personél, cwsmeriaid a chyflenwyr y naill Barti neu'r llall [oll yn ddata personol a data personol sensitif yn ystyr Deddf Diogelu Data 1998] a Gwybodaeth sy'n Sensitif o safbwynt Masnachol.

Ystyr "DRhG" yw Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac unrhyw ddeddfwriaeth eilaidd a wneir o dan y Ddeddf hon o bryd i'w gilydd ynghyd ag unrhyw ganllawiau a/neu godau ymarfer a gyhoeddir gan y Comisiynydd Gwybodaeth mewn perthynas â'r cyfryw ddeddfwriaeth.

Mae gan "Gwybodaeth" yr ystyr a roddir o dan adran 84 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Bydd gan "Ceisiadau am Wybodaeth" yr ystyr a nodir yn y DRhG neu unrhyw gais ymddangosiadol am wybodaeth o dan y DRhG.

Ystyr "Diffyg" yw unrhyw dorri rhwymedigaethau gan y naill Barti neu'r llall (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i doriad sylfaenol neu dorri teler sylfaenol) neu unrhyw ddiffyg, gweithred, anweithred, esgeulustod neu ddatganiad gan y naill Barti neu'r llall, ei gyflogeion, asiantau neu isgcontractwyr ynghylch neu mewn perthynas â chynnwys y Contract ac y mae'r cyfryw Barti yn atebol i'r llall mewn cysylltiad ag ef.

Ystyr "Safonau Ansawdd" yw'r safonau ansawdd sy'n ymwneud â'r Nwyddau a gyhoeddir gan y Sefydliad Safonau Prydeinig, yr International Organisation for Standardisation neu unrhyw gorff cyfatebol arall, y byddid yn disgwyl yn rhesymol ac yn arferol i weithredydd medrus a phrofiadol sy'n gweithio yn yr un math o ddiwydiant neu fusnes â'r Contractwr gydymffurfio â hwy fel yr atodir atynt gan y Fanyleb.

Ystyr "Cyrrff Rheoleiddio" yw'r adrannau llywodraethol ac endidau rheoleiddiol, statudol neu arall, pwyllgorau, ombwdsmyrn a chyrrff sydd, boed o dan statud, rheolau, rheoliadau, codau ymarfer neu fel arall, â hawl i reoleiddio, ymchwilio neu ddylanwadu ar y materion yr ymdrinnir â hwy yn y

Contract neu unrhyw faterion eraill o eiddo'r Cyngor a rhaid dehongli "Corff Rheoleiddio" yn unol â hyn.

Ystyr "Deddfwriaeth" a "Chyfraith" yw unrhyw Ddeddf Seneddol neu ddeddfwriaeth eilaidd yn unol ag ystyr adran 21(1) Deddf Dehongli 1978, unrhyw enghraifft o arfer Uchelfraint y Goron ac unrhyw hawl Cymunedol gorfodadwy yn unol ag ystyr adran 2 Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, is-ddeddf, polisi rheoleiddiol, canllawiau neu god diwydiant, dyfarniad gan lys barn perthnasol, neu gyfarwyddbau neu ofynion unrhyw Gorff Rheoleiddio y mae rhwymedigaeth ar y Contractwr i gydymffurfio â hwy, ym mhob achos yn y Deyrnas Unedig.

Ystyr "Newid Cyffredinol yn y Gyfraith" yw newid yn y Gyfraith sy'n dod i rym ar ôl y Dyddiad Dechrau, lle bo'r newid o natur ddeddfwriaethol gyffredinol (gan gynnwys trethi neu dollau o unrhyw fath sy'n effeithio ar y Contractwr) neu a fyddai'n effeithio ar neu'n berthnasol i elfen debyg o'r un math â'r Contract neu o fath tebyg iddo.

Oni fo'r cyd-destun yn mynnu fel arall, rhaid dehongli unrhyw gyfeiriad at unrhyw ddeddfiad, gorchymyn, rheoliad neu offeryn tebyg arall fel cyfeiriad at y deddfiad, gorchymyn, rheoliad neu offeryn fel y'i diwygiwyd neu y'i hail-ddeddfwyd gan unrhyw ddeddfiad, gorchymyn, rheoliad neu offeryn dilynol.

Mae penawdau'r amodau hyn er mwyn hwylustod yn unig a ni fyddant yn effeithio ar y ffordd y'u dehonglir.

Rhaid peidio â dehongli bod unrhyw beth yn y Contract yn creu partneriaeth, contract cyflogaeth na pherthynas pennaeth ac asiant rhwng y Cyngor a'r Contractwr, oni ddywedir hynny'n benodol o dan y Contract.

2. Atodiadau a Datganiadau Polisi

2.1 Mae'r Amodau Cyffredinol Safonol Contractau hyn yn cynnwys Atodiadau A, B, ac C lle cânt eu dangos, eu mynegeo a'u hatodi, a Datganiadau Polisi Cyngor Sir Caerfyrddin a gânt eu mynegeo, eu hamgáu gyda'r dogfennau Tendr neu y cyfeirir atynt yn benodol yn y dogfennau Tendr.

3. Amrywio Amodau

3.1 Rhaid i'r Nwyddau gael eu cyflenwi'n unol â'r Amodau hyn. Bydd unrhyw amodau y bydd y Contractwr yn ceisio eu gosod ac sydd mewn unrhyw ffordd yn ychwanegu at yr Amodau hyn, yn eu hamrywio neu'n eu gwrth-ddweud yn cael eu heithrio ac ni fyddant yn ffurfio rhan o'r Contract, oni fydd y Cyngor wedi cytuno â phob un o'r cyfryw amodau yn benodol yn ysgrifenedig.

3.2 Ni fydd unrhyw amrywiad diweddarach yn gyfrwymol oni fydd cynrychiolydd awdurdodedig y Cyngor wedi cytuno ag ef yn ysgrifenedig a'i lofnodi.

4. Hysbysiadau

4.1 Ac eithrio fel y darperir yn benodol fel arall yn y Contract, ni fydd unrhyw hysbysiad na gohebiaeth arall oddi wrth y naill Barti i'r llall yn ddilys o dan y Contract oni fydd wedi'i wneud yn ysgrifenedig gan neu ar ran y Parti dan sylw.

4.2 Rhaid trin unrhyw hysbysiad a roddir ynghylch y Contract fel un sydd wedi'i roi'n briodol ac sy'n effeithiol ar ddyddiad ei bostio.

4.3 Rhaid i unrhyw hysbysiad neu ohebiaeth arall a roddir gan y naill Barti i'r llall gael ei roi trwy lythyr (a anfonir trwy law, y post, post cofrestredig neu drwy'r gwasanaeth dosbarthiad a

gofnodwyd), neu drwy ffacs neu bost electronig (a'i gadarnhau yn achos y ddau hyn trwy lythyr). Ar yr amod nad yw'r ohebiaeth berthnasol yn cael ei dychwelyd am nad yw wedi'i dosbarthu, tybir y bydd yr hysbysiad neu'r ohebiaeth wedi cael ei roi 2 ddiwrnod gwaith ar ôl y diwrnod y postiodwyd y llythyr, neu bedair awr ar ôl anfon y post electronig neu ffacs, neu'n gynt lle mae'r Parti arall yn cydnabod derbyn y cyfryw lythyrau, ffacsau neu neges bost electronig.

4.4 Gall y naill Parti neu'r llall newid ei gyfeiriad cyflwyno trwy gyflwyno hysbysiad yn unol â'r cymal hwn.

5. Archwilio Safleoedd

5.1 Oddieithr fel y bydd y Cyngor yn rhoi cyfarwyddyd fel arall, tybir bod y Contractwr wedi archwilio'r Safleoedd cyn cyflwyno ei dendr a'i fod wedi ymholi'n briodol fel ei fod wedi deall natur a maint y Contract sydd i'w gyflawni a'i fod yn fodlon ynghylch yr holl faterion sy'n gysylltiedig â chyflawni'r Contract.

5.2 Rhaid i'r Cyngor, ar gais y Contractwr, ganiatáu mynediad rhesymol at y diben y cyfeirir ato yng nghymal 5.1.

6. Camgymeriadau mewn Gwybodaeth

6.1 Y Contractwr fydd yn gyfrifol am gywirdeb pob lluniad, dogfen a gwybodaeth y mae'r Contractwr yn ei gyflenwi i'r Cyngor mewn cysylltiad â darparu'r Nwyddau, a bydd yn talu i'r Cyngor unrhyw gostau ychwanegol a achosir gan unrhyw anghysondebau, camgymeriadau neu esgeulustra ynddynt.

7. Gwrthdaro Buddiannau

7.1 Rhaid i'r Contractwr gymryd camau priodol i sicrhau na fydd y Contractwr nac unrhyw gyflogai, gwas, asiant, cyflenwr nac is-gontractwr yn cael ei roi mewn sefyllfa lle, ym marn resymol y Cyngor, mae neu gall fod gwrthdaro gwirioneddol neu wrthdaro posibl rhwng buddiannau ariannol neu bersonol y Contractwr neu'r cyfryw bersonau a'r dyletswyddau sy'n ddyledus i'r Cyngor o dan ddarpariaethau'r Contract. Rhaid i'r Contractwr ddatgelu i'r Cyngor fanylion llawn unrhyw wrthdaro buddiannau o'r fath a all godi.

7.2 Bydd darpariaethau'r cymal hwn yn berthnasol tra pery'r Contract ac am ddwy flynedd ar ôl iddo gael ei derfynu neu iddo ddod i ben.

8. Twyll

8.1 Rhaid i'r Contractwr gymryd pob cam rhesymol, yn unol ag arferion da yn y diwydiant, i atal unrhyw weithgaredd twyllodrus gan y Staff, y Contractwr (gan gynnwys ei gyfranddalwyr, aelodau, cyfarwyddwyr) a/neu unrhyw un o gyflenwyr y Contractwr, mewn cysylltiad â derbyn arian oddi wrth y Cyngor. Rhaid i'r Contractwr hysbysu'r Cyngor ar unwaith os oes ganddo le i amau bod unrhyw dwyll wedi digwydd neu yn digwydd neu'n debyg o ddigwydd.

Rhan 2 Talu a Phris

9. Pris a Thalu

9.1.1 Bydd Pris y Contract yn "net", hynny yw, ar ôl didynnu pob disgownt y cytunwyd arno. Rhaid i swm unrhyw doll sy'n ychwanegol at Bris y Contract ac unrhyw ddisgownt am dalu'n gynnar gael eu dangos ar wahân yn y Contract.

9.1.2 Lle mae Nwyddau i gael eu cyflenwi, rhaid i Bris y Contract gynnwys cost pacio, deunyddiau pacio, cyfeirio, labelu, llwytho a danfon i'r cyfeiriadau a enwir yn y Contract neu mewn archebion.

9.2 Rhaid i'r Cyngor dalu Pris y Contract i'r Contractwr trwy BACS os yw'r Cyngor yn dewis gwneud hynny, cyn pen deg diwrnod ar hugain ar ôl derbyn y nwyddau a chytuno eu bod mewn cyflwr boddhaol ac ar ôl derbyn a chytuno ar anfoneb ddilys.

9.3 Pryd bynnag o dan y Contract y bydd yn rhaid adennill unrhyw swm o arian oddi wrth y Contractwr neu y bydd yn rhaid i'r Contractwr dalu unrhyw swm o arian, gellir didynnu'r cyfryw swm o unrhyw swm sy'n ddyledus ar yr adeg honno, neu a all ddod yn ddyledus ar unrhyw adeg ar ôl hynny, i'r Contractwr o dan y Contract neu o dan unrhyw gontract arall gyda'r Cyngor.

9.4 Os, am unrhyw reswm, bydd y Contract yn dod i ben mewn unrhyw ffordd arall nag ar ddiwedd mis calendr llawn, rhaid i'r Cyngor dalu ar gyfer y mis calendr a gwblhawyd yn rhannol 1/365ed o Bris blyneddol y Contract am bob diwrnod llawn y gweithiodd y Contractwr yn y mis calendr a gwblhawyd yn rhannol.

9.5.1 Rhaid i'r Pris fod yn gadarn am y Cyfnod cychwynnol. Os yw'r Cyngor yn ystyried estyn y Cyfnod yn unol â Chymal 26, bydd y Cyngor (fel rhan o'r cyfryw ystyriaeth) yn adolygu'r Pris gyda'r Contractwr yn y chwe mis cyn i'r Contract ddod i ben.

9.5.2 Os bydd cytundeb ar amrywiad i'r Pris gyda'r Cyngor fel rhan o'i ystyriaeth ynghylch estyn y Cyfnod, bydd y Pris diwygiedig yn dod i rym o ddiwrnod cyntaf unrhyw estyniad i'r Cyfnod yn unol â Chymal 26 a bydd yn aros yn gadarn am gyfnod estyniad y Cyfnod.

9.5.3 Ni ystyrir unrhyw godiad yn y Pris yn unol â Chymalau 9.5.1 a 9.5.2 uchod ond os na fydd y codiad yn fwy na'r newid canrannol ym Mynegai Pris Defnyddwyr y Swyddfa Ystadegau Gwladol (neu fynegai arall o'r fath a ragnodir mewn Atodlen i'r Contract hwn) rhwng y Dyddiad Dechrau a dyddiad unrhyw hysbysiad o roddir o dan gymal 9.5.2.

9.6.1 Rhaid i'r Contractwr weithredu unrhyw ofyniad cyfreithiol i gyfrifo am y Nwyddau mewn ewro (neu i baratoi at y fath gyfrifo), yn lle a/neu yn ychwanegol at sterling, heb godi tâl ar y Cyngor.

9.6.2 Rhaid i'r Cyngor roi pob cymorth rhesymol i hwyluso cydymffurfiaeth gan y Contractwr o dan gymal 9.6.1.

Rhan 3 Rhwymedigaethau Statudol a Rheoliadau

10. Iechyd a Diogelwch

10.1 Mae'r Contractwr yn datgan ac yn gwarantu i'r Cyngor bod y Contractwr wedi ei sicrhau ei hun bod yr holl brofion ac archwiliadau angenrheidiol wedi cael eu gwneud neu y byddant yn cael eu gwneud cyn darparu'r nwyddau/gwasanaeth er mwyn sicrhau bod y nwyddau/gwasanaeth wedi'u cynllunio a'u hadeiladu fel y byddant yn ddiogel a heb risg i iechyd neu ddiogelwch y personau sy'n eu defnyddio, a'i fod wedi darparu i'r Cyngor wybodaeth ddigonol am y defnydd y mae'r nwyddau/gwasanaeth wedi'u cynllunio a'u profi ar ei gyfer ac am unrhyw amodau angenrheidiol i sicrhau y bydd y nwyddau/gwasanaeth, wrth eu defnyddio, yn ddiogel a heb risg i iechyd. Rhaid i'r Contractwr indemnio'r Cyngor yn erbyn pob achos, hawliad, gorchymyn, colled, tâl, cost a thraul y gall y Cyngor eu dioddef neu fynd iddynt o ganlyniad i neu mewn cysylltiad ag unrhyw enghraifft o dorri'r amod hwn.

10.2 Mae'r Contractwr yn gwarantu y bydd y Contract yn cael ei gyflawni gan bersonau â chymwysterau a hyfforddiant priodol gyda gofal a diwydrwydd dyledus ac i safonau mor uchel ag y mae'n rhesymol i'r Cyngor eu disgwyl o dan yr holl amgylchiadau.

10.3 Rhaid i'r Contractwr sicrhau bod ei bolisi diogelwch wedi cael ei dynnu i sylw holl aelodau ei staff, a bod gan ei holl staff rheoli a goruchwyllo wybodaeth fanwl am y polisi hwn ac y byddant yn ufuddhau i'r polisi ac yn mynnu bod staff y Contractwr yn cydymffurfio'n llwyr â'i ddarpariaethau. Rhaid i'r Contractwr hefyd sicrhau bod ei staff yn cydymffurfio â pholisi a gweithdrefn lechyd a Diogelwch a pholisïau a gweithdrefnau perthnasol eraill y Cyngor bob amser tra eu bod ar safleoedd y Cyngor.

10.4 Lle mae Rheoliadau COSHH neu ddeddfwriaeth diogelwch arall yn berthnasol i'r Nwyddau/Gwasanaeth a gyflenwir, rhaid i'r Contractwr sicrhau bod y taflenni data diogelwch priodol ar gael i'r Cyngor.

11. Cyfle Cyfartal

11.1 Bydd y Contractwr yn cydymffurfio â rhwymedigaethau statudol y Cyngor o dan y Ddeddf Cydraddoldeb (2010), a Deddf Hawliau Dynol 1998, ac ni fydd yn gwahaniaethu yn erbyn unigolyn yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol oherwydd hil, lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, iaith, anabledd, crefydd, cred neu ddiffyg cred, oed, rhyw, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, statws o ran cyfrifoldebau magu plant, statws priodasol neu statws partneriaeth sifil.

11.2 Bydd y Contractwr yn dilyn, i'r graddau sy'n rhesymol, Godau Arferion y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol o ran dileu gwahaniaethu ym maes cyflogaeth yn erbyn unigolion sy'n meddu ar unrhyw un o'r nodweddion gwarchoddedig.

11.3 Os bydd unrhyw ganfyddiad o wahaniaethu anghyfreithlon yn cael ei wneud yn erbyn y Contractwr, yn ystod Cyfnod y Contract gan unrhyw lys neu driwlynys diwydiannol, neu unrhyw ganfyddiad anffafriol mewn unrhyw ymchwiliad ffurfiol gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn ystod yr un cyfnod, bydd y Contractwr yn rhoi gwybod i'r Cyngor am y canfyddiad hwn a bydd yn cymryd camau priodol i atal ailadrodd gwahaniaethu anghyfreithlon o'r fath.

11.3.1 Bydd Contractwr, ar gais, yn darparu manylion i'r Cyngor am unrhyw gamau a gymerwyd o dan yr amod uchod.

11.4 Bydd y Contractwr yn darparu gwybodaeth o'r fath y gallai'r Cyngor ofyn amdano'n rhesymol at ddibenion asesu cydymffurfiaeth y Contractwr â'r amodau uchod gan gynnwys, os gofynnir amdanynt, enghreifftiau o unrhyw gyfarwyddiadau, hysbysebion recriwtio neu ddeunydd darllen arall a manylion am fonitro ymgeiswyr a gweithwyr.

12. Hyfforddiant

12.1 Rhaid i'r Contractwr ddarparu addysg a hyfforddiant i bersonél y Cyngor fel a nodir yn y fanyleb. O leiaf, rhaid i'r cyfuniad o hyfforddiant a ddarperir trwy hyn a'r Dogfennau a'r Deunyddiau a ddarperir yn unol â Chymal 12.2 isod fod yn ddigon i alluogi personél â chymwysterau priodol sy'n cael y cyfryw hyfforddiant ac a all weld y cyfryw Ddogfennau a Deunyddiau i ddefnyddio, gweithredu a rheoli'n briodol y system a'r pethau sydd i'w cyflwyno. Er mwyn osgoi amheuaeth, ystyr "â chymwysterau priodol" fydd lefel o allu, addysg a phrofiad y tybir fel arfer ei bod yn ofynnol ar gyfer tasgau o'r fath ac ni fydd yn cyfeirio at unrhyw aelodau penodol o bersonél y Cyngor.

12.2 Rhaid i'r Contractwr gyflenwi Dogfennau a Deunyddiau i'r Cyngor fel a ragnodir yn y fanyleb. O leiaf, rhaid i'r cyfuniad o Ddogfennau a Deunyddiau a ddarperir trwy hyn a'r hyfforddiant a ddarperir yn unol â Chymal 12.1 uchod fod yn ddigon i alluogi personél â chymwysterau priodol a all weld y cyfryw Ddogfennau a Deunyddiau ac sy'n cael y cyfryw hyfforddiant i ddefnyddio, gweithredu a rheoli'n briodol unrhyw system a'r pethau sydd i'w cyflwyno. Er mwyn osgoi amheuaeth, ystyr "â chymwysterau priodol" fydd lefel o allu, addysg a phrofiad y tybir fel arfer ei bod yn ofynnol ar gyfer tasgau o'r fath ac ni fydd yn cyfeirio at unrhyw aelodau penodol o bersonél y Cyngor.

13. Cymhellion

13.1 Rhaid i'r Contractwr beidio â chynnig i'r Cyngor na'i gynrychiolwyr fel amrywiad i Amodau'r Contract nac fel Contract cyfochrog iddo unrhyw fantais ac eithrio disgownt arian parod oddi ar Bris y Contract.

13.2 Bydd gan y Cyngor hawl i ddileu'r Contract ac i adennill oddi wrth y Contractwr swm unrhyw golled sy'n deillio o'i ddileu yn y fath fodd os:

13.2.1 bydd y Contractwr wedi cynnig, neu roi, neu gytuno i roi i unrhyw berson unrhyw rodd, tâl, cymhelliad neu wobr o unrhyw fath, am gyflawni neu beidio â chyflawni unrhyw weithred mewn cysylltiad â'r Contract neu unrhyw Gontract arall gyda'r Cyngor; neu

13.2.2 bydd y gweithredoedd y cyfeirir atynt yn 13.2.1 uchod wedi'u cyflawni gan unrhyw berson a gyflogir gan y Contractwr neu'n gweithredu ar ei ran (boed yn wybod neu heb yn wybod i'r Contractwr); neu

mewn perthynas ag unrhyw Gontract gyda'r Cyngor, bydd y Contractwr neu unrhyw berson a gyflogir ganddo neu sy'n gweithredu ar ei ran:

13.2.3 wedi cyflawni unrhyw drosedd o dan y Deddfau Atal Llygredd 1889 i 1916, neu

13.2.4 wedi rhoi unrhyw ffi neu dâl y mae ei dderbyn yn drosedd o dan Adran 117(2) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

13.3 Nid yw unrhyw gymal sy'n cyfyngu ar atebolrwydd y Contractwr yn berthnasol i'r cymal hwn.

14. Deddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999

14.1 Ni fydd gan neb nad yw'n Barti yn y Contract (gan gynnwys heb gyfyngiad unrhyw gyflogai, swyddog, asiant, cynrychiolydd neu is-gontractwr i'r Cyngor neu i'r Contractwr) unrhyw hawl i orfodi unrhyw deler o'r Contract, sydd yn benodol neu drwy oblygiad, yn rhoi budd iddo heb gytundeb ysgrifenedig y ddau Barti o flaen llaw, a dylai'r cytundeb hwnnw gyfeirio'n benodol at gymal 14. Nid yw'r cymal hwn yn effeithio ar unrhyw hawl neu rwymedi gan unrhyw berson, sy'n bodoli neu sydd ar gael mewn modd arall ac eithrio yn unol â'r Ddeddf honno.

Rhan 4 Diogelu Gwybodaeth

15. Cyfrinachedd

15.1 Rhaid i'r Contractwr a'i staff beidio â datgelu i unrhyw berson ac eithrio person sydd wedi'i awdurdodi gan y Cyngor unrhyw wybodaeth a gawsant mewn cysylltiad â'r Contract.

15.2 Heb ragfarnu cyffredinolrwydd Amod 15.1, rhaid i'r Contractwr a'i staff beidio â datgelu i unrhyw berson ac eithrio person sydd wedi'i awdurdodi gan y Cyngor unrhyw wybodaeth a gawsant

mewn cysylltiad â darparu'r Gwasanaethau ac sy'n ymwneud â'r Cyngor, ei staff neu ei weithdrefnau, neu gyflwr meddygol unrhyw gyflogai.

15.3 Yn yr Amodau hyn, ystyr "Gwybodaeth sy'n Sensitif o safbwynt Masnachol" yw'r holl faterion sy'n ymwneud â'r Contract ynghyd â'r holl wybodaeth a ddynodir felly gan y naill barti neu'r llall yn ysgrifenedig a phob gwybodaeth arall sy'n ymwneud â dull gweithredu, busnes, cynhyrchion, cyfrinachau masnach, datblygiadau, medr, personél, cwsmeriaid a chyflenwyr y naill barti neu'r llall a gwybodaeth y gellir yn rhesymol ei hystyried yn wybodaeth gyfrinachol sy'n eiddo i'r parti sy'n ei datgelu.

15.4 Yn ddarostyngedig i Gymal 15.5 a 15.6 isod, rhaid i bob Parti gadw'n gyfrinachol yr holl Wybodaeth sy'n Sensitif o safbwynt Masnachol a ddatgelir iddo. Rhaid i bob Parti beri na fydd ei gyflogeion yn datgelu i unrhyw berson unrhyw Wybodaeth sy'n Sensitif o safbwynt Masnachol.

15.5 Mae'r Contractwr yn cydnabod ymrwymiad y Cyngor i lywodraeth agored a hawl y cyhoedd i weld gwybodaeth. Yn unol â hyn, mae'r Partion yn cytuno bod:

15.5.1 darpariaethau'r Cymal 16 hwn yn ddarostyngedig i rwymedigaethau ac ymrwymadau'r Cyngor o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (at ddibenion y cymal hwn DRhG) (fel y gellir ei diwygio o bryd i'w gilydd);

15.5.2 yn ddarostyngedig i Gymal 15.5.3 mae'r penderfyniad a yw unrhyw eithriad yn berthnasol i gais am ddatgelu gwybodaeth a gofnodwyd yn benderfyniad i'r Cyngor yn unig;

15.5.3 lle mae'r Cyngor yn rheoli cais fel y cyfeirir ato yng Nghymal 15.5.2 bydd yn ymgynghori a'r Contractwr ynghylch unrhyw gais am ddatgelu gwybodaeth a gofnodwyd y mae'r Cymal hwn yn berthnasol iddo ac yn unol â'r canllawiau y cyfeirir atynt yn y Cod Ymarfer ar Gyflawni Rhwymedigaethau Awdurdodau Cyhoeddus a gyhoeddwyd o dan adran 45 DRhG. Rhaid i'r Contractwr gydweithredu gyda'r Cyngor sy'n gwneud y cais ac ymateb cyn pen 5 diwrnod gwaith i unrhyw gais ganddo am gymorth i benderfynu sut i ymateb i gais am ddatgeliad; a

15.5.4 rhaid i'r naill Barti a'r llall enwebu cynrychiolydd ar gyfer ystyried a chytuno ar faterion sy'n ymwneud â'r Cymal 15.5.3 hwn.

15.6 Ni fydd Cymal 15.3 yn berthnasol i:

15.6.1 unrhyw ddatgeliad gwybodaeth i gynghorwyr proffesiynol y naill Barti neu'r llall;

15.6.2 unrhyw ddatgeliad gwybodaeth sy'n ofynnol i sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r DRhG fel a nodir yng Nghymal 15.5 uchod;

15.6.3 unrhyw ddatgeliad gwybodaeth sy'n ofynnol yn rhesymol gan, neu i, bersonau sydd wrthi'n cyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract gan gynnwys y Contractwr ac is-gontractwyr ar yr amod bod y cyfryw is-gontractwyr wedi ymrwmo i ymgymieriad parthed cyfrinachedd a pharthed cydymffurfio â'r DRhG yn sylweddol ar ffurf y Cymal hwn;

15.6.4 unrhyw wybodaeth y gall y parti sy'n ei datgelu ddangos ei bod eisoes ar gael yn gyffredinol ac yn y parth cyhoeddus mewn modd ac eithrio o ganlyniad i dorri'r Cymal 15 hwn;

15.6.5 unrhyw ddatgeliad i alluogi gwneud penderfyniad o dan gymal 36 Cyflafareddu;

15.6.6 unrhyw ddatgeliad sy'n ofynnol gan unrhyw gyfraith (gan gynnwys unrhyw orchymyn gan lys ag awdurdodaeth gymwys) neu reolau unrhyw gyfnewidfa stoc neu Gyngor llywodraethol neu reoleiddiol sydd â grym cyfraith;

15.6.7 unrhyw ddatgeliad gwybodaeth sydd eisoes yn gyfreithlon ym meddiant y parti sy'n ei dderbyn, cyn ei ddatgelu gan y parti sy'n ei ddatgelu, ac nad yw'n amodol ar rwymedigaeth cyfrinachedd;

15.6.8 unrhyw ddarparu gwybodaeth i fancwyr y Contractwr neu eu cynghorwyr proffesiynol neu gynghorwyr yswiriant neu, lle y cynigir y dylai neu y gall person ddarparu arian (boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol a boed trwy fenthyciad, cyfranogiad ecwiti neu fel arall) i'r Contractwr i'w alluogi i gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract, i'r person hwnnw ond dim ond i'r graddau sy'n rhesymol angenrheidiol i alluogi gwneud penderfyniad ar y cynnig;

15.6.9 pan fo'n briodol, unrhyw gofrestrïadau neu gofnodion o'r caniatadau a chofrestrïadau eiddo sy'n ofynnol;

15.6.10 Yn ddarostyngedig i Gymal 15.4 unrhyw ddatgeliad gan y Cyngor o unrhyw ddogfen sy'n gysylltiedig â'r Contract y mae'n barti iddo ac y mae'r Contractwr (gan weithredu'n rhesymol) wedi cytuno'n ysgrifenedig â'r Parti sy'n gwneud y cais nad yw'n cynnwys unrhyw Wybodaeth sy'n Sensitif o safbwynt Masnachol; ac

15.6.11 unrhyw ddatgeliad at ddiben:

15.6.11.1 archwilio ac ardystio cyfrifon y Cyngor; neu

15.6.11.2 unrhyw archwiliad yn unol ag Adran 6(1) Deddf Archwilio Cenedlaethol 1983 o ba mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol mae'r Cyngor wedi defnyddio ei adnoddau.

15.6.12 unrhyw ddatgeliad gwybodaeth a dderbynnir neu a dderbyniwyd yn gyfreithlon gan y parti sy'n ei dderbyn oddi wrth drydydd parti ac nad yw neu nad oedd yn destun unrhyw rwymedigaethau cyfrinachedd; neu

15.6.13 unrhyw wybodaeth y dangosir i foddhad rhesymol y parti arall ei bod wedi cael ei datblygu neu ei chreu'n annibynnol gan y parti sy'n ei derbyn neu ei asiantau neu is-gontractwyr heb gael gweld y Wybodaeth sy'n Sensitif o safbwynt Masnachol a ddarparwyd.

15.7 Lle caniateir datgelu o dan Gymal 15.6.2, 15.6.3, 15.6.5, 15.6.8 rhaid i'r parti sy'n datgelu sicrhau bod y sawl sy'n derbyn y wybodaeth dan yr un rhwymedigaeth cyfrinachedd â'r un a geir yn yr Amodau hyn.

15.8 Bydd y darpariaethau a'r rhwymedigaethau a nodir yn y Cymal 15 hwn yn goroesi ac yn aros mewn grym wrth i'r Contract gael ei derfynu ac wedi hynny.

15.9 Lle darperir i'r Contractwr, wrth gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract, Wybodaeth sy'n Sensitif o safbwynt Masnachol oddi wrth neu gan drydydd parti, rhaid i'r Contractwr beidio â datgelu na defnyddio unrhyw wybodaeth o'r fath mewn ffordd arall ac eithrio at y diben y'i darparwyd iddo, oni fydd y Contractwr wedi ceisio caniatâd ysgrifenedig y trydydd parti hwnnw o flaen llaw ac wedi cael caniatâd ysgrifenedig y Cyngor o flaen llaw.

15.10 Wrth ymrwymo i'r Contract i ddarparu nwyddau neu wasanaethau i bartïon y maent i gyd yn cael eu diffinio fel cyrff cyhoeddus o dan y DRhG, mae'r Contractwr yn nodi ac yn cydnabod Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a'r ddau God Ymarfer ar Gyflawni Swyddogaethau Awdurdodau Cyhoeddus ac ar Reoli Cofnodion (a gyhoeddir o dan adrannau 45 a 46 y DRhG yn ôl eu trefn). Bydd y Contractwr yn gweithredu'n unol â'r darpariaethau hyn i'r graddau y maent yn berthnasol i'r Contract a bydd yn rhoi pob cymorth rhesymol i'r Cyngor er mwyn ei gwneud yn haws iddo gydymffurfio â hwy.

15.11 Mae'r Partïon yn cydnabod bod gan Swyddfa Archwilio Cymru hawl i gyhoeddi manylion y Contract yn ei hadroddiadau.

16. Diogelu Data

16.1 Lle bo'r Contractwr yn prosesu data personol ar ran y Cyngor, fel Prosesydd Data a ddiffinnir o dan Ddeddf Diogelu Data 1998, mae'n rhaid i'r Contractwr brosesu'r data yn unol â gofynion Cytundeb Prosesu Data ategol (wedi'i atodi er gwybodaeth).

17. Indemniad Hawliau Eiddo Deallusol

17.1 Bydd pob Hawl Eiddo Deallusol mewn unrhyw fanylebau, cyfarwyddiadau, cynlluniau, data, lluniadau, cronfeydd data, patentau, patrymau, modelau, dyluniadau neu ddeunydd arall:

(a) y mae'r Cyngor yn eu darparu neu'n sicrhau eu bod ar gael i'r Contractwr yn aros yn eiddo i'r Cyngor;

(b) sy'n cael eu paratoi gan neu i'r Contractwr i'w defnyddio, neu gan fwriadu eu defnyddio, mewn cysylltiad â chyflawni'r Contract hwn yn eiddo i'r Cyngor,

a rhaid i'r Contractwr beidio, a rhaid iddo beri y bydd cyflogeion, gweision, asiantau, cyflenwyr ac is-contractwyr y Contractwyr yn peidio, (ac eithrio pan fo'n angenrheidiol at weithredu'r Contract) heb Gymeradwyaeth o flaen llaw, â defnyddio neu ddatgelu unrhyw Hawliau Eiddo Deallusol o'r fath, neu unrhyw wybodaeth arall (boed yn berthnasol i'r Contract hwn ai peidio) y bydd y Contractwr yn ei chael wrth gyflawni'r Contract ac eithrio gwybodaeth sydd yn y parth cyhoeddus.

17.2 Rhaid i'r Contractwr gael Gymeradwyaeth cyn defnyddio unrhyw ddeunydd, mewn perthynas â chyflawni'r Contract, y mae gan neu y gall fod gan unrhyw Drydydd Parti Hawliau Eiddo Deallusol iddo. Rhaid i'r Contractwr beri bod perchennog yr hawliau yn rhoi i'r Cyngor drwydded anghyfyngedig neu, os oes ganddo yntau drwydded ar gyfer yr hawliau hynny, rhaid iddo roi i'r Cyngor isdrwydded awdurdodedig i ddefnyddio, atgynhyrchu a chadw'r deunydd. Rhaid i'r cyfryw drwydded neu isdrwydded fod yn anghyfyngedig, yn fythol-barhaus ac yn ddi-awl'n-ôl, rhaid iddi gynnwys yr hawl i isdrwyddedu, trosglwyddo, newyddu neu aseinio i Awdurdodau Contractio eraill, y Contractwr Newydd sy'n cymryd lle hen Gontractwr, neu i unrhyw drydydd Parti arall sy'n darparu gwasanaethau i'r Cyngor, a rhaid ei rhoi heb gost i'r Cyngor.

17.3 Un o amodau'r Contract yw na fydd y deunyddiau y mae'r Contractwr yn eu cyflenwi neu'n eu trwyddedu yn tresmasu ar unrhyw Hawliau Eiddo Deallusol unrhyw drydydd Parti a rhaid i'r Contractwr yn ystod ac ar ôl y Cyfnod Cychwynol ar gais ysgrifenedig indemnio a pharhau i indemnio'r Cyngor yn erbyn pob achos, hawliad, gorchymyn, tâl, iawndal, cost a thraul a rhwymedigaethau eraill y gall y Cyngor eu dioddef neu fynd iddynt o ganlyniad i neu mewn cysylltiad ag unrhyw doriad o'r cymal hwn, ac eithrio lle mae unrhyw hawliad o'r fath yn cyfeirio at:

(a) dyluniadau a ddarparwyd gan y Cyngor;

(b) defnyddio data a gyflenwyd gan y Cyngor, nad yw'n ofynnol i'r Contractwr ei wirio o dan unrhyw ddarpariaeth yn y Contract.

17.4 Rhaid i'r Cyngor hysbysu'r Contractwr yn ysgrifenedig am unrhyw hawliad neu orchymyn a ddygir yn erbyn y Cyngor am dresmasu neu dresmasu honedig ar unrhyw Hawl Eiddo Deallusol mewn deunyddiau a gyflenwir neu a drwyddedir gan y Contractwr.

17.5 Rhaid i'r Contractwr ar ei gost ei hun gynnal pob trafodaeth ac unrhyw gyfreitha a fydd yn codi mewn cysylltiad ag unrhyw hawliad am dresmasu ar Hawl Eiddo Deallusol mewn deunyddiau a gyflenwir neu a drwyddedir gan y Contractwr, ar yr amod bob amser y bydd y Contractwr:

(a) yn ymgynghori â'r Cyngor ynghylch pob mater o sylwedd a fydd yn codi wrth gynnal y cyfryw gyfreitha a thrafodaethau;

(b) yn rhoi ystyriaeth ddyledus a phriodol i fuddion y Cyngor; ac

(c) yn peidio â setlo neu gyfaddawdu ar unrhyw hawliad heb ganiatâd ysgrifenedig y Cyngor o flaen llaw (nad yw i gael ei atal na'i oedi'n afresymol).

17.6 Rhaid i'r Cyngor ar gais y Contractwr roi i'r Contractwr bob cymorth rhesymol at ddiben ymladd unrhyw hawl neu orchymyn a wneir neu achos a ddygir yn erbyn y Cyngor neu'r Contractwr am dresmasu neu dresmasu honedig ar unrhyw Hawl Eiddo Deallusol mewn cysylltiad â chyflawni'r Contract ac ad-delir iddo bob cost a thraul (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gostau cyfreithiol a gwariadau) yr eir iddynt wrth wneud hynny.

17.7 Rhaid i'r Cyngor beidio â gwneud unrhyw addefiadau a all fod yn niweidiol i amddiffyn neu setlo unrhyw hawliad, gorchymyn neu achos am dresmasu neu dresmasu honedig ar unrhyw Hawl Eiddo Deallusol gan y Cyngor neu'r Contractwr mewn cysylltiad â chyflawni'r Contract.

17.8 Os gwneir, neu os yw'n debyg ym marn resymol y Contractwr y gwneir, hawliad, gorchymyn neu achos am dresmasu neu dresmasu honedig ar unrhyw Hawl Eiddo Deallusol mewn cysylltiad â'r Contract, gall y Contractwr ar ei gost ei hun ac yn amodol ar ganiatâd y Cyngor (nad yw i gael ei atal na'i oedi'n afresymol) naill ai:

(a) addasu unrhyw un neu bob un o'r Nwyddau heb leihau perfformiad nac ymarferoldeb y cyfryw, neu ddarparu Nwyddau eraill cyfwerth o ran eu perfformiad a'u hymarferoldeb, er mwyn osgoi'r tresmasu neu dresmasu honedig, ar yr amod y bydd y telerau yn hwn yn berthnasol mutatis mutandis i'r cyfryw Nwyddau a addasir neu'r cyfryw Nwyddau a ddarperir yn eu lle; neu

(b) gael trwydded i ddefnyddio a darparu'r Nwyddau, sy'n destun y tresmasu honedig, ar delerau sy'n dderbyniol i'r Cyngor.

17.9 Ar ôl terfynu'r Contract rhaid i'r Contractwr ddychwelyd i'r Cyngor ar unwaith yr holl ddeunyddiau, gwaith neu gofnodion a ddelir, gan gynnwys unrhyw gyfryngau ategol.

17.10 Bydd darpariaethau'r cymal hwn yn berthnasol tra pery'r Contract hwn ac yn amhenodol ar ôl iddo ddod i ben neu gael ei derfynu.

18. Cyhoeddusrwydd, y Cyfryngau ac Ymholiadau Swyddogol

Heb ragfarnu rhwymedigaethau'r Cyngor o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, rhaid i'r naill Barti na'r llall beidio â gwneud unrhyw gyhoeddiadau i'r wasg na rhoi cyhoeddusrwydd i'r Contract nac unrhyw ran ohono mewn unrhyw ffordd, ac eithrio gyda chaniatâd ysgrifenedig y Parti arall.

Bydd darpariaethau'r cymal hwn yn berthnasol tra pery'r Contract hwn ac yn amhenodol ar ôl iddo ddod i ben neu gael ei derfynu.

19. Archwilio a Swyddfa Archwilio Cymru

19.1 Rhaid i'r Contractwr gadw a chynnal hyd [ddeuddeng mlynedd] ar ôl i'r Contract gael ei gwblhau, neu am unrhyw gyfnod y bydd y Partïon yn cytuno arno, gofnodion llawn a chywir o'r

Contract gan gynnwys y Nwyddau a ddarparwyd o dano, pob gwariant a ad-dalwyd gan y Cyngor, a phob taliad a wnaed gan y Cyngor. Rhaid i'r Contractwr ar gais ganiatáu i'r Cyngor neu i gynrychiolwyr y Cyngor weld y cofnodion hynny y mae eu hangen ar y Cyngor mewn cysylltiad â'r Contract.

Rhan 5 Rheolaeth dros y Contract

20. Y Contract

20.1 Yn ystod y cyfnod y derbynnir unrhyw Contract amdano rhaid i'r Contractwr/Contractwyr gyflenwi a danfon i'r Cyngor a rhaid i'r Cyngor dderbyn y nwyddau, gwasanaethau, pethau neu ddeunyddiau (yn ddarostyngedig i'r hyn a grybwyllir wedi hyn) o'r un disgrifiad ac am yr un prisiau a grybwyllir yn y tendr sydd ynghlwm wrth hwn ac yn y meintiau ac am y prisiau a archebir gan y Cyngor.

20.2 Pe bai'n ofynnol i sefydliad gwahanol gymryd drosodd cyflenwi Nwyddau/Gwasanaeth ar ôl i'r Contract ddod i ben neu gael ei derfynu, rhaid i'r Contractwr gydweithredu â'r trosglwyddiad, o dan drefniadau sydd i'w hysbysu iddo gan y Cyngor. Rhaid i'r trosglwyddiad gael ei drefnu rhwng y Cyngor a'r Contractwr fel ag i leihau i'r eithaf unrhyw fwlch wrth gyflenwi'r cyfryw Nwyddau/Gwasanaeth.

21. Monitro Perfformiad

21.1 Rhaid i'r Contractwr gydymffurfio â'r trefniadau monitro a nodir yn y Fanyleb gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ddarparu'r data a'r wybodaeth a all fod yn ofynnol i'r Contractwr eu cynhyrchu o dan y Contract.

22. Toradwyedd

22.1 Os bydd unrhyw ddarpariaeth yn y Contract yn anghyfreithlon, yn ddi-rym neu'n annilys, neu os daw'n anghyfreithlon, yn ddi-rym neu'n annilys, ni fydd hynny'n effeithio ar gyfreithlondeb a dilysrwydd ei ddarpariaethau eraill.

23. Cyflawni'r Contract

23.1 Os yw'r Contractwr/Contractwyr yn methu â darparu nwyddau/gwasanaethau a/neu wasanaethau yn unol â'r Amodau hyn bydd gan y Cyngor hawl i gael y cyfryw nwyddau/gwasanaethau a/neu wasanaethau o rywle arall a rhaid i'r Contractwr/Contractwyr indemnio'r Cyngor yn erbyn yr holl dreuliau sy'n codi o neu sy'n gysylltiedig â'r cyfryw fethiant ar ei ran. Bydd gan y Cyngor hawl i ddiynnu'r cyfryw dreuliau o arian sy'n daladwy i'r Contractwr/Contractwyr o dan y Contract a/neu unrhyw contract arall a fo mewn grym ar y pryd rhwng y Contractwr/Contractwyr a'r Cyngor a bydd y Contractwr/Contractwyr yn ddi-oed yn talu gweddill y cyfryw dreuliau nas didynnwyd yn y modd hwn.

24. Hepgor

24.1 Ni fydd methiant y naill barti neu'r llall i geisio iawn am doriadau neu i fynnu cyflawni'n fanwl unrhyw ddarpariaeth yn y Contract neu fethiant y naill barti neu'r llall i arfer unrhyw hawl neu rwymedi y mae ganddo hawl iddo o dan y Contract yn golygu ei fod yn ei hepgor ac ni fydd yn achosi lleihad i'r rhwymedigaethau o dan y Contract.

24.2 Ni fydd hepgor unrhyw ddarpariaethau yn y Contract yn effeithiol oni fydd y ddau barti wedi cytuno arno yn ysgrifenedig.

24.3 Ni fydd hepgor unrhyw ddiffyg yn golygu hepgor unrhyw ddiffyg dilynol.

25. Trosglwyddo, Is-gontractio a Newid Rheolaeth

25.1 Gwaherddir y Contractwr/Contractwyr rhag trosglwyddo neu aseinio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i unrhyw berson neu bersonau o gwbl, unrhyw ran o'i gontract heb ganiatâd ysgrifenedig y Cyngor. Gwaherddir is-osod unrhyw ran/nau o'r gwaith ac eithrio i'r graddau a ganiateir yn ysgrifenedig gan y Prif Swyddog dan sylw.

25.2 Rhaid i'r Contractwr arfer gofal a phriodoldeb dyledus wrth ddelio â thrydydd partïon mewn cysylltiad â'r Contract a sicrhau nad ymrwymir i unrhyw ymrwymiadau (oni fyddant yn ofynnol yn benodol o dan y Contract), heb ganiatâd ysgrifenedig y Cyngor o flaen llaw.

25.3 Rhaid i'r Contractwr sicrhau bod unrhyw is-gontractwr yn cydymffurfio â thelerau ac amodau'r Contract, i'r graddau y maent yn berthnasol. Rhaid i unrhyw is-gontract beidio â rhyddhau'r Contractwr o'i rwymedigaethau o dan y Contract.

25.4 Rhaid i'r Contractwr hysbysu'r Cyngor ar unwaith yn ysgrifenedig am unrhyw gynnig neu drafodaethau a all neu a fydd yn arwain at uno, trosfeddiannu, newid rheolaeth, newid enw neu statws, neu raid i'r Contractwr (ac yntau'n gwmni fel a ddiffinnir yn Neddf Cwmnïau 1985) hysbysu'r Cyngor am unrhyw newid o'r fath fel a ddiffinnir yn adran 416 Deddf Trethi Incwm a Chorfforaeth 1988. Rhaid i'r Contractwr gydymffurfio ag unrhyw gais gan y Cyngor am wybodaeth sy'n codi o'r Amod hwn.

26. Estyniad Posibl ar y Cyfnod

26.1 Yn amodol ar berfformiad boddhaol gan y Contractwr yn ystod y Cyfnod Cychwynnol, bydd gan y Cyngor hawl, trwy hysbysiad ysgrifenedig i'r Contractwr a roddir heb fod yn llai nag un mis cyn diwrnod olaf y Cyfnod, i estyn y Contract am un cyfnod pellach. Bydd darpariaethau'r Contract hwn yn berthnasol trwy gydol unrhyw gyfnod estynedig o'r fath.

27. Newyddu

27.1 Bydd gan y Cyngor hawl i aseinio, newyddu neu waredu mewn modd arall ei hawliau a'i rwymedigaethau o dan y Contract hwn neu unrhyw ran ohono i unrhyw Gyngor sy'n Contractio, corff sector preifat neu unrhyw gorff arall a sefydlwyd o dan statud ("Trosglwyddai") ar yr amod na fydd unrhyw aseinio, newyddu neu waredu arall yn cynyddu baich rhwymedigaethau'r Contractwr o dan y Contract hwn.

27.2 Bydd gan y Cyngor hawl i ddatgelu i unrhyw Drosglwyddai unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol o eiddo'r Contractwr, sy'n ymwneud â'r modd y mae'r Contractwr yn cyflawni'r Contract. O dan y cyfryw amgylchiadau rhaid i'r Cyngor awdurdodi'r Trosglwyddai i ddefnyddio'r cyfryw Wybodaeth Gyfrinachol at ddibenion sy'n ymwneud â'r ffordd y cyflawnir y Contract o ran Contractau am Nwyddau yn unig ac nid at unrhyw ddibenion eraill a rhaid iddo gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y Trosglwyddai'n derbyn rhwymedigaeth cyfrinachedd.

Rhan 6 Rhwymedigaethau

28. Rhwymedigaethau, Indemniad ac Yswiriant

28.1 Rhaid i'r Contractwr/Contractwyr indemnio'r Cyngor yn erbyn unrhyw gostau, hawliadau, gorchmynion, achosion a threuliau sy'n codi mewn cysylltiad ag anaf personol i unrhyw berson boed yn gyflogedig gan y Contractwr/Contractwyr ai peidio, a achosir gan neu mewn cysylltiad â chyflawniad neu gyflawniad honedig y Contract neu ddifrod i eiddo. Rhaid darparu prawf o yswiriant

digonol cyn dyfarnu'r Contract, o ran Atebolrwydd Cyhoeddus, Atebolrwydd Cyflogwr, Atebolrwydd Proffesiynol a/neu Indemniad Cynnyrch (fel sy'n ofynnol fel arfer), ac i'r swm penodedig (y swm/symiau a nodir ym Manyleb y Contract a/neu'r ddogfen Tendr).

28.2 Rhaid i'r Contractwr, cyn dechrau'r Contract; ac ar ôl hynny ar ddyddiad adnewyddu pob polisi yswiriant unigol, fel y bo'n digwydd; ac ar unrhyw adegau eraill y bydd y Swyddog Goruchwyllo yn mynnu'n rhesymol:

(a) Ganiatáu i'r Cyngor weld y dogfennau gwreiddiol (gan gynnwys polisiau, nodiadau dros dro, derbynebau am bremymau ac unrhyw ddogfennau eraill);

(b) Cyflenwi copïau o'r dogfennau yswiriant gwreiddiol;

(c) Cyflenwi cadarnhad oddi wrth yswirwyr y Contractwr ac, os yw'n berthnasol yr is-gontractwyr, bod yr yswiriant a gafwyd yn cydymffurfio'n llwyr â rhwymedigaethau'r Contract hwn.

28.3 Bydd gan y Cyngor hawl i hysbysu'r Contractwr yn ysgrifenedig nad yw unrhyw bolisi yswiriant neu drefniant hunan-yswirio o'r fath, ym marn y Cyngor, yn darparu digon o sicrwydd i gydymffurfio â'r cymal hwn ac i fynnu bod y Contractwr yn darparu yswiriant a fydd yn cydymffurfio â'r cymal hwn. Ar ôl derbyn y cyfryw hysbysiad, rhaid i'r Contractwr ar unwaith gael a chynnal y math o yswiriant y bydd y Cyngor yn ei fynnu'n rhesymol, ac os bydd toriad ar hyn gall y Cyngor ei hun beri i yswiriant o'r fath gael ei weithredu. Lle bydd toriad o'r fath, rhaid i'r Contractwr dalu i'r Cyngor fel dyled y swm y bydd y Cyngor yn ardystio yw'r gost i'r Cyngor o weithredu'r cyfryw yswiriant, ynghyd â swm cyfwerth â 10% o gostau'r cyfryw yswiriant fel cyfraniad tuag at gostau gweinyddol a gorbenion y Cyngor.

28.4 Bydd yn ofynnol i'r Contractwr ar gam y tendr nodi beth yw ei systemau ar gyfer delio â hawliadau yswiriant trydydd partïon. Bydd yn un o amodau'r Contract y bydd y Contractwr yn delio'n gyflym ac yn effeithlon gyda phob hawliad y bydd trydydd partïon yn eu cyflwyno iddo, naill ai gan ei staff ei hun neu drwy gyfeirio'r cyfryw hawliadau at ei yswirwyr neu eu hasiantau.

28.5 Yn ei berfformiad o dan y Contract rhaid i'r Contractwr dderbyn cyfrifoldeb llawn am, ac indemnio'r Cyngor, ei gontractwyr eraill a'i staff yntau a'u staff hwythau a'u dal yn ddi-fai, rhag ac yn erbyn yr hawliadau canlynol:

28.5.1 Pob hawliad o ran diffyg cydymffurfiaeth y Contractwr a'i is-gontractwyr â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974, Deddf Trethi Incwm a Chorfforaeth 1988, Deddf Cyllid (Rhif 2)1975, Deddf Diogelu Cyflogaeth (Cydgrynhoi) 1978 neu unrhyw gymhwys Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 1981 neu'r Gyfarwyddeb Hawliau Caffaeledig (EEC/77/187); fel y'u diwygiwyd.

28.5.2 Pob hawliad o ba fath bynnag a sut bynnag y mae'n codi a all gael ei wneud ar unrhyw adeg, sy'n codi o ddamweiniau i staff y Contractwr neu staff is-gontractwyr y Contractwr, a/neu golled neu ddifrod i eiddo'r Contractwr ac eiddo'i is-gontractwyr a'i staff yntau a'u staff hwythau;

28.5.3 Pob hawliad trydydd parti sy'n codi o gyflawni'r Contract a phob atebolrwydd o ba fath bynnag a achosir gan esgeulustod y Contractwr a/neu ei is-gontractwr a'i staff yntau a'u staff hwythau. Lle nad yw'r Contractwr a/neu ei is-gontractwyr a'i staff yntau neu eu staff hwythau ond wedi cyfrannu trwy eu hesgeulustod i hawliad o'r fath, ni fydd y Cyngor ond yn dibynnu ar yr indemniad hwn hyd eithaf esgeulustod cyfrannol y Contractwr neu ei is-gontractwyr;

28.5.4 Pob colled neu ddifrod a achosir i unrhyw dir, adeilad neu daclau ym mherchnogaeth, meddiannaeth neu feddiant neu feddiannaeth neu feddiant rhannol y Cyngor gan gyflogai neu asiant

y Contractwr neu ei is-gontractwyr (pa un ai achosir y cyfryw ddifrod gan esgeulustod neu mewn unrhyw ffordd arall o gwbl);

28.5.5 Unrhyw golled o ganlyniad neu golled anuniongyrchol y bydd y Cyngor yn ei dioddef o ganlyniad i weithredoedd neu anweithredoedd y Contractwr a/neu ei is-gontractwyr neu ei staff neu eu staff;

28.4.6 Pob hawliad o ba fath bynnag a sut bynnag y mae'n codi a all gael ei wneud mewn perthynas ag unrhyw Hawliau Eiddo Deallusol yn unol â Chymalau 17.1 i 17.10 gan gynnwys y ddau hwnnw, a geir yn hon;

28.5.7 Pob hawliad o ba fath bynnag a sut bynnag y mae'n codi a all gael ei wneud ar unrhyw adeg, sy'n codi o fethiant y Contractwr i ddarparu buddion pensiwn galwedigaethol nad ydynt yn llai ffafriol gyda'i gilydd na'r rhai y mae'r Cyngor yn eu darparu ar hyn o bryd i'w staff o dan delerau Cynllun Pensiynau Llywodraeth Leol lle mae'r staff hynny wedi trosglwyddo i'r Contractwr o dan ddarpariaethau Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 1981 neu'r Gyfarwydddeb Hawliau Caffaeledig (EEC/77/187).

28.6 Bydd y Cyngor yn atebol i'r Contractwr am unrhyw golled neu ddifrod i eiddo'r Contractwr a achosir gan weithredoedd bwriadol neu esgeulus y Cyngor neu ei staff yn ystod cwrs eu cyflogaeth ond nid mewn unrhyw ffordd arall o gwbl.

28.7 Ni fydd y Cyngor o dan unrhyw amgylchiadau o gwbl yn atebol i'r Contractwr am unrhyw golled ganlyniadol, colled economaidd neu golled ariannol o unrhyw fath o gwbl y mae'r Contractwr yn ei dioddef o ganlyniad i unrhyw fethiant ar ran y Cyngor i gomisiynu'r maint o waith yr oedd y Contractwr yn ei ragweld neu mewn unrhyw ffordd arall i greu'r lefel tâl a ragwelwyd o dan y Contract hwn. Bydd y Cyngor yn atebol am dalu'r symiau sy'n briodol ddyledus i'r Contractwr o dan y Contract hwn ond ni fydd yn atebol i'r Contractwr ond am unrhyw golled ganlyniadol, colled economaidd neu golled anuniongyrchol a achosir gan ddiffyg talu lle mae'r Contractwr wedi rhoi i'r Cyngor o leiaf un mis o rybudd ysgrifenedig o flaen llaw o bwysigrwydd taliad penodol, ac wedi nodi maint y golled y rhagwelir y byddai oedi wrth dalu yn ei hachosi.

28.8 Mae unrhyw wybodaeth a roddir i'r Contractwr o ran meintiau awgrymedig yn y Biliau Meintiau/Rhestr Cyfraddau a/neu unrhyw gynllun, lluniad, adroddiad, cronfa ddata, ffeil neu wybodaeth debyg yn y Fanyleb, yn cael ei rhoi fel amcan yn unig. Mae'r Contractwr yn cytuno ei fod wedi gwirio cywirdeb y wybodaeth drosto'i hun a thybir y bydd wedi cael yr holl wybodaeth angenrheidiol drosto'i hun ynghylch risgiau, cyfyngau ac unrhyw amgylchiadau eraill, a allai yn rhesymol ddylanwadu neu effeithio ar dendr y Contractwr. Ni fydd unrhyw hawliad yn erbyn y Cyngor yn cael ei ganiatáu boed dan gyfraith contract, dan gyfraith camwedd, o dan Ddeddf Camliwio 1967, neu fel arall ar sail unrhyw anghywirdeb.

29. Gwarantau a Datganiadau

29.1 Mae'r Contractwr yn gwarantu ac yn datgan bod: -

(a) gan y Contractwr y cymhwysra a'r awdurdod llawn a'r holl ganiatadau angenrheidiol (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, lle bo ei weithdrefnau'n mynnu hynny, caniatâd ei riant-gwmni) i ymrwymo i'r Contract hwn a'i gyflawni a bod y Contract hwn yn cael ei gyflawni gan gynrychiolydd y Contractwr a awdurdodwyd yn briodol;

(b) rhaid i'r Contractwr gyflawni ei rwymedigaethau o dan hwn gyda phob medr, gofal a diwydrwydd sy'n ddyledus, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i arferion da yn y diwydiant;

(c) y bydd holl rwymedigaethau'r Contractwr yn unol â'r Contract yn cael eu cyflawni gan staff â phrofiad, cymwysterau a hyfforddiant priodol gyda phob medr, gofal a diwydrwydd sy'n ddyledus;

(d) y Contractwr heb fethu â thalu unrhyw drethi sy'n ddyledus ac yn daladwy nac wedi methu â ffeilio, cofrestru neu gofnodi unrhyw ddogfen ac nad yw o dan unrhyw rwymedigaeth neu ofyniad cyfreithiol neu statudol y gallai methu â'i gyflawni gael effaith andwyol sylweddol ar ei fusnes, ei asedau neu ei gyflwr ariannol neu ei allu i gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract hwn.

Rhan 7 Diffyg, Amharu a Therfynu

30. Ansolfedd

30.1 Gall y Cyngor ar unrhyw adeg trwy hysbysiad ysgrifenedig derfynu'r Contract yn syth heb iawndal i'r Contractwr yn achos unrhyw un o'r digwyddiadau canlynol: -

30.1.1 os yw'r Contractwr, ac yntau'n unigolyn, neu, lle bo'r Contractwr yn ffym, unrhyw bartner yn y ffym honno'n mynd yn fethdalwr ar unrhyw adeg, neu os oes gorchymyn derbyn, gorchymyn gweinyddu neu orchymyn interim yn cael ei wneud yn ei erbyn, neu os yw'n gwneud unrhyw gompownd neu gynllun trefniadau gyda neu er budd ei gredydwy, neu os yw'n gwneud unrhyw drawsgludiad neu aseiniad er budd ei gredydwy, neu'n honni gwneud hynny, neu os yn yr Alban os bydd yn mynd yn ansolfent neu'n "notour bankrupt", neu os gwneir unrhyw gais am atafaelu ei ystâd, neu os rhoddir gweithred ymddiried ganddo er budd ei gredydwy; neu

30.1.2 os yw'r Contractwr, ac yntau'n gwmni, yn pasio cynnig, neu os yw'r Llys yn gwneud gorchymyn, y bydd y cwmni'n cael ei ddirwyn i ben (ac eithrio at ddiben cyfuniad neu adluniad), neu os yw derbynnydd gweinyddol ar ran credydwr yn cael ei benodi, neu os yw'r Llys yn gwneud gorchymyn gweinyddu, neu os yw amgylchiad yn codi sy'n rhoi hawl i'r Llys neu gredydwr benodi derbynnydd gweinyddol neu sy'n rhoi hawl i'r Llys wneud gorchymyn dirwyn i ben neu orchymyn gweinyddu;

ar yr amod bob amser na fydd y cyfryw derfynu'n rhagfarnu nac yn effeithio ar unrhyw hawl i achos neu rwymedi, a fydd wedi dod yn eiddo i'r Cyngor, neu a fydd yn dod yn eiddo i'r Cyngor wedi hynny.

31. Terfynu

31.1 Oni fydd yn cael ei derfynu'n gynt yn unol â darpariaethau canlynol y cymal hwn, bydd y Contract hwn am gyfnod parhad a nodir ym Mhrif Dudalen y Contract sy'n berthnasol i'r Contract penodol a wneir a chan ddechrau o ddyddiau dechrau'r Contract a bydd yn parhau wedi hynny am yr hyd a gytunwyd, a nodir ym Mhrif Dudalen y Contract ond gall y naill barti neu'r llall ei derfynu gan roi tri mis o rybudd ysgrifenedig i'r parti arall.

31.2 Os yw'r naill barti neu'r llall yn torri unrhyw rwymedigaeth sydd arno o dan y Contract, ac, yn achos toriad y mae modd ei gywiro, oni fydd y toriad wedi cael ei gywiro gan y parti a'i gwnaeth cyn pen 30 diwrnod ar ôl hysbysiad ysgrifenedig yn nodi'r toriad ac yn mynnu ei gywiro yna gall y parti nad yw wedi torri'r rhwymedigaeth derfynu'r Contract hwn ar unwaith trwy hysbysiad ysgrifenedig i'r parti arall heb ragfarnu'r hawliau a ddaeth yn eiddo i'r naill barti neu'r llall.

31.3 Bydd hawl gan y Cyngor i derfynu'r Contract hwn ar unwaith trwy hysbysiad ysgrifenedig i'r Contractwr:

31.3.1 os oes ganddo sail resymol i ragweld y bydd unrhyw weithred gan y Contractwr, yn erbyn y Contractwr neu a osodir ar y Contractwr yn cael effaith sylweddol ar allu'r Contractwr i gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract;

31.3.2 os yw'r Contractwr yn galw cyfarfod o'i gredydwy'r neu os gwneir cynnig am drefniant gwirfoddol o fewn Rhan 1 Deddf Ansolfedd 1986 neu os gwneir cynnig am unrhyw gynllun compowndio neu drefniant arall gyda (neu aseiniad er budd) ei gredydwy'r neu os bydd yn methu â thalu ei ddyledion yn unol ag ystyr Adran 123 Deddf Ansolfedd 1986 neu os penodir ymddiriedolwr, derbynydd, derbynydd gweinyddol, gweinyddwr neu ddiddymwr mewn perthynas â'i holl fusnes neu asedau neu unrhyw ran o'i fusnes neu asedau neu os cyflwynir deiseb neu os gelwir cyfarfod at ddibenion ystyried cynnig neu os cymerir camau eraill ar gyfer dirwyn i ben y Contractwr neu ar gyfer gwneud gorchymyn gweinyddu (ac eithrio at ddiben cyfuno neu ail-saernio solfent,) neu os yw'r Contractwr yn rhoi'r gorau i redeg ei fusnes neu'n bygwth rhoi'r gorau i redeg ei fusnes, neu os yw'r Contractwr yn peidio â bodloni unrhyw amod neu ofyniad statudol mewn perthynas â'i solfedd.

31.4 Ni fydd terfynu'r Contract yn rhagfarnu nac yn effeithio ar unrhyw hawl i achos neu rwymedi a fydd wedi dod yn eiddo i'r Cyngor neu'r Contractwr, neu a fydd o bosibl yn dod yn eiddo i'r Cyngor neu'r Contractwr wedi hynny.

32. Hawliau a Rhwymedïau a ddaeth yn eiddo i barti

32.1 Ni fydd diwedd y Contract na therfynu'r Contract yn rhagfarnu nac yn effeithio ar unrhyw hawl i achos neu rwymedi, a fydd wedi dod yn eiddo i'r Cyngor neu'r Contractwr, neu a fydd yn dod yn eiddo i'r Cyngor neu'r Contractwr wedi hynny.

33. Force Majeure

33.1 Ni fydd y naill barti na'r llall yn atebol i'r parti arall am unrhyw fethiant i gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract lle gwneir y cyfryw gyflawniad yn amhosibl gan Force Majeure, ond ni fydd dim yn yr Amod hwn yn cyfyngu ar rwymedigaethau'r Contractwr i wneud ei orau glas i gyflawni ei rwymedigaethau o dan y contract.

Rhan 8 Anghydfodau a'r Gyfraith

34. Y Gyfraith

34.1 Bydd y Contract hwn yn cael ei reoli gan a'i ddehongli yn unol â Chyfraith Lloegr a bydd yn ddarostyngedig i awdurdodaeth Llysoedd Cymru a Lloegr.

35. Datrys Anghydfodau

35.1 Rhaid i'r Partïon geisio'n ddiwyll gyd-drafod datrysiad i unrhyw anghydfod rhyngddynt sy'n codi o'r Contract neu mewn cysylltiad â'r Contract cyn pen 21 diwrnod ar ôl i'r naill Barti hysbysu'r llall am yr anghydfod; bydd y cyfryw ymdrechion yn golygu codi mater yr anghydfod i lefel y [cyfarwyddwr cyllid] (neu swyddog cyfatebol) pob Parti.

35.2 Ni fydd dim yn y weithdrefn datrys anghydfod hon yn rhwystro'r Partïon rhag ceisio, gan unrhyw lys â'r awdurdodaeth gymwys, gorchymyn interim yn atal y Parti arall rhag cyflawni unrhyw weithred neu'n gorfodi'r Parti arall i gyflawni unrhyw weithred.

35.3 Oni all y Partïon ddatrys yr anghydfod yn unol â chymal 35.1 bydd yr anghydfod yn cael ei gyfeirio i'w gyflafareddu oni bai (a) fod y Cyngor yn ystyried nad yw'r anghydfod yn addas i gael ei ddatrys gan gyflafareddu; neu (b) nad yw'r Contractwr yn cytuno i gyflafareddu.

35.4 Ni fydd cyflawni'r Contract yn cael ei atal dros dro, ei atal na'i oedi gan gyfeirio anghydfod i'w gyflafareddu a rhaid i'r Contractwr (neu ei gyflogai, asiant, cyflenwr neu is-contractwr) gydymffurfio'n llwyr â gofynion y Contract bob amser.

36. Cyflafareddu

36.1 Os bydd unrhyw gwestiwn, anghydfod neu anghytundeb yn codi rhwng y Cyngor Sir a'r Contractwr/Contractwyr mewn perthynas â'r contract hwn neu unrhyw fater neu beth sy'n codi o dano, bydd y cyfryw gwestiwn, anghydfod neu anghytundeb yn cael ei gyfeirio at un cyflafareddwr neu berson arall i gael ei benodi gan y Cyngor Sir a bydd ei benderfyniad yntau ym mhob achos a bob amser yn derfynol ac yn gyfrwymol ar y Cyngor Sir ac ar y Contractwr/Contractwyr a bydd y cyfryw gyfeiriad i'w gyflafareddu yn gyflwyniad o fewn ystyr Deddf Cyflafareddu 1996 neu unrhyw ailddeddfiad statudol ohoni, a bydd yn ddarostyngedig i ddarpariaeth y ddywededig Ddeddf neu unrhyw addasiad statudol ohoni sydd mewn grym am y tro.
